# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Caerdydd

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Caerdydd i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Caerdydd bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Caerdydd 7 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 1.

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Caerdydd wedi parhau i berfformio'n dda yn y flwyddyn olaf hon o'r chweched fframwaith. Bydd creu strategaeth llyfrgell newydd yn helpu'r gwasanaeth i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer "darparu gwasanaethau a chymorth o ansawdd uchel yng nghanol y gymuned". Ar y cyfan mae'n perfformio'n gryf ym mhob maes: mae gan y gwasanaeth y nifer uchaf o fenthycwyr gweithredol y pen ac mae niferoedd uchel o bobl yn defnyddio ei gyfleusterau TG. Fodd bynnag, mae nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan blant ac oedolion wedi gostwng yn sylweddol. Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant. Mae'r lefel isel o staff proffesiynol yn parhau i beri pryder. Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth yn darparu amrediad eang o weithgareddau a gwasanaethau i gefnogi ei gymunedau amrywiol.

- Mae Caerdydd yn un o ddim ond pedwar awdurdod sy'n cynnig yr ystod lawn o wasanaethau iechyd a llesiant dan DA 4 yn rheolaidd ym mhob man gwasanaeth, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i arwain y gwaith ar fentrau i'r sector cyfan.
- Mae Caerdydd wedi parhau i berfformio'n arbennig o dda o ran y rhan fwyaf o ddangosyddion sy'n ymwneud â defnydd, ond mae nifer y llyfrau oedolion a'r llyfrau plant a fenthycir wedi gostwng unwaith eto er 2018/19.
- Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gostwng yn 2019/20 ac nid yw'r targedau ar gyfer deunyddiau darllen cyfoes a phriodol wedi'u cyflawni – patrwm sydd i'w weld ledled Cymru.
- Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol wedi cynyddu unwaith eto, a gwelwyd cynnydd hefyd yn y defnydd ohonynt. Mae darpariaeth Caerdydd yn parhau ymhlith yr uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru.
- Mae lefelau staffio cyffredinol wedi'u cynnal, ac erbyn hyn Caerdydd yw'r unig wasanaeth yng Nghymru sydd wedi cyflawni'r targed staffio fesul pen o'r boblogaeth, er bod hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth staffio integredig a ddarperir drwy Hybiau. Mae nifer y staff cymwysedig wedi aros yr un fath, ac mae'n parhau ymhlith yr isaf yng Nghymru.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi codi unwaith eto yn 2019/20, ac mae wedi cynyddu 20% er 2017/18.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

### 2.1 Hawliau craidd

Erbyn hyn mae Caerdydd yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. Dim ond 11 o'r 12 hawl graidd oedd yn cael eu cyflawni gan Gaerdydd yn nwy flynedd gyntaf y Fframwaith. Nid yw Caerdydd wedi cyflawni'r gofyniad i 'ddarparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth'. Mae Strategaeth 2019-2023 wedi'i chyhoeddi erbyn hyn ac mae ar gael i'r cyhoedd. Mae'r blaenoriaethau'n canolbwyntio ar feysydd Darllen; Gwybodaeth a Digidol; Diwylliant a Chreadigrwydd; ac Iechyd a Llesiant.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Caerdydd yn cyflawni 7 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac wedi methu â chyflawni 1 ohonynt.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawi'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | √ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | √ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | √ | |
| d) Datblygu darllenwyr | √ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawi'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | √ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | √ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | √ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | √ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | √ | |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | √ | Cyflawi'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | x | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawi'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | √ | |
| neu Wariant ar y Gymraeg fesul pen | √ | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawi'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | √ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | √ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawi'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | √ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | √ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | √ | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | x | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | √ | |
| DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth | √ | Cyflawi'n llawn |

Mae Caerdydd wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, ac ni fu unrhyw newid sylweddol er 2018/19.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn

cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Caerdydd ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion a'i arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant ym mis Mawrth 2020. Mae % yr oedolion sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu sgiliau newydd yn seiliedig ar adborth gan gwsmeriaid ar gyrsiau a gyflwynwyd yn yr hybiau yng Nghaerdydd yn unig, ac o ganlyniad, ni ellir cymharu'r ganran hon yn uniongyrchol â gwasanaethau eraill, ac mae DA 1a yn y tabl isod wedi'i ddiwygio.

| **Dangosydd perfformiad** | | ***Safle*** | **Isaf** | **Canolrif** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 95% | *=5/19* | 60% | 90% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 69% | *18/19* | 41% | 85% | 99% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Caerdydd bedair astudiaeth achos:

- Cynhwysiant Cymdeithasol – Effaith Cynhwysiant Cymdeithasol; galluogi un unigolyn ifanc i gael sgiliau newydd a hyder, ac effaith gadarnhaol ar ei iechyd meddwl a'i lesiant drwy rôl wirfoddoli yn y Llyfrgell.
- Ynysigrwydd cymdeithasol yn y gymuned – I'r unigolion hynny y mae ynysigrwydd cymdeithasol yn effeithio arnynt, mae hwn yn gyfle i aelodau ddod at ei gilydd yn y Llyfrgell; i gymdeithasu â phobl eraill; i ymlacio a gwneud ffrindiau newydd. Mae'r adborth a dderbyniwyd yn dangos yr effaith gadarnhaol ar ansawdd bywyd yr unigolion hynny sy'n mynychu'r sesiynau'n rheolaidd. Mae partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi arwain at LIFT (Hyfforddiant Gweithredol Llai Heriol), i rai o'r unigolion hynny sydd â nam corfforol. Dechreuodd y prosiect â dim ond un neu ddau o aelodau bob wythnos, ac mae wedi tyfu erbyn hyn i 15-17 o aelodau.
- Iechyd a llesiant – Mae cefnogaeth gan y Llyfrgell wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant unigolyn agored i niwed sy'n byw yng Nghaerdydd. O ganlyniad i weithgareddau a gynigir yn yr Hybiau, mae un aelod wedi ymuno â grŵp cerdded a grŵp pêl-rwyd cerdded. Mae hyn wedi arwain at ddiddordeb newydd mewn darllen. Mae wedi gwella ei golwg ar fywyd yn sylweddol, rhoi diddordebau newydd iddi, a rhywbeth i edrych ymlaen ato bob wythnos.
- Bocsys chwarae a gweithdai Dwylo ar Hanes yn Llyfrgell Cathays – prosiect i ymgysylltu ag ysgolion, grwpiau cymunedol a'r gymuned a'u hannog i ymweld â'r hybiau llyfrgell. Cyflwynwyd gweithdy 1960au i 11 grŵp SHEP (rhaglen i ysgolion sy'n ceisio sicrhau bod plant mewn ardaloedd lle mae amddifadedd cymdeithasol yn parhau i gael mynediad at brydau iach, addysg am fwyd a maeth, gweithgareddau corfforol a sesiynau cyfoethogi drwy gydol gwyliau'r ysgol) yng Nghaerdydd yn ystod haf 2019. Roedd y gweithdy'n ysgogi gallu creadigol a disgrifiadol y plant tra oeddent

yn dysgu drwy chwarae. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y niferoedd a gymerodd ran yn Her Ddarllen yr Haf.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a’u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli’r staff, pori drwy’r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a’r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Caerdydd ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen’ o’r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2018/19* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 91% | *=2/18* | 25% | 75% | 94% | *dd/b* |
| c) iechyd a lles | 95% | *2/19* | 38% | 69% | 96% | *dd/b* |
| d) lle diogel a chroesawgar | 94% | *16/19* | 90% | 96% | 100% | *dd/b* |
| DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 78% | *18/18* | 78% | 91% | 99% | *dd/b* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 88% | *18/18* | 88% | 97% | 100% | *dd/b* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 66% | *16/17* | 65% | 85% | 99% | *dd/b* |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | 85% | *18/18* | 85% | 96% | 100% | *dd/b* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 8.0 | *19/19* | 8.0 | 9.2 | 9.5 | *dd/b* |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 6,874* | *1/22* | 2429 | 3987 | 6874 | *7170** |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 2,131 | *1/22* | 239 | 909 | 2131 | *2205* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 244 | *1/22* | 78 | 145 | 244 | *251* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen[2] | 928 | *3/22* | 311 | 680 | 1468 | *1193* |
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul 10,000 | 12 | *3/22* | 4 | 9 | 14 | *11* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 61% | *3/22* | 14% | 30% | 64% | *49%* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £19,948 | *2/22* | £7,260 | £12,448 | £23,333 | *£17,153* |
| b) % ar staff | 68% | *8/22* | 48% | 61% | 76% | *76%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 7% | *21/22* | 5% | 13% | 22% | *8.7%* |
| % ar offer ac adeiladau | 21% | *=2/22* | 0% | 8% | 28% | *15%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 3% | *21/22* | 1% | 18% | 35% | *0.3%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £1,695 | *4/22* | £0 | £3318 | £30,258 | *£3,549* |
| DA 16 – Oriau agor[3] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.02% | *18/22* | 0.00% | 0.23% | 3.96% | *0.02%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 1.16% | *15/22* | 0.00% | 1.07% | 5.41% | *0.73%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; [2] fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; [3] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

### 3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)[i]

Cynhaliodd Caerdydd ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Mawrth 2020. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod copïau papur wedi'u tynnu'n ôl ar 13 Mawrth oherwydd pryderon iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â Covid-19. Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf ym

mlwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17) ac er bod gostyngiad bach i’w weld mewn bodlonrwydd cwsmeriaid, gwelwyd cynnydd o 55% yn nifer yr oedolion sy’n teimlo bod y Llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i’w hiechyd a’u llesiant. Er bod defnydd o’r cyfleusterau TG yn uchel ar gyfer Cymru, mae’r cyfraddau bodlonrwydd ymhlith yr isaf ar gyfer llyfrgelloedd Cymru. Mae Caerdydd wedi parhau i weithio gyda’r Asiantaeth Ddarllen a Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu Darllen yn Well ymhellach, gan gynnwys cyflwyno rhestr ddarllen Iechyd Meddwl. Mae Caerdydd yn un o bedwar awdurdod yn unig sy’n cynnig yr ystod lawn o wasanaethau dan DA 4 yn rheolaidd ym mhob man gwasanaeth, ac mae’r gwasanaeth yn parhau i arwain gwaith ar fentrau i’r sector cyfan.

## 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)[ii]

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae Caerdydd yn parhau i gyflawni’r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth. Erbyn hyn mae Caerdydd yn un o bedwar awdurdod yn unig sy’n darparu’r ystod lawn o wasanaethau a gweithgareddau a nodwyd ym mhob un o’i fannau gwasanaeth (craidd ac ychwanegol). Er bod nifer yr ymweliadau â safleoedd llyfrgell wedi gostwng ers blwyddyn gyntaf y fframwaith, mae’r gwasanaeth yn nodi bod cau dau Hyb allweddol ym mis Ionawr 2020 ar gyfer gwaith adnewyddu wedi effeithio ar hyn. Mae aelodaeth o lyfrgell wedi cynyddu 16% er 2017/18, a gwelwyd cynnydd o 7% yn nifer y benthycwyr gweithredol, sy’n dangos bod y gwaith i wella’r ddarpariaeth iechyd a llesiant wedi gwneud gwahaniaeth. Er bod benthyciadau llyfrau oedolion a phlant wedi gostwng yn sylweddol, mae benthyciadau llyfrau plant yn parhau’n gryf ac mae’r gwasanaeth wedi cofnodi’r nifer mwyaf ond un o fenthyciadau llyfrau plant fesul pen o’r boblogaeth. Yn unol ag awdurdodau eraill ledled Cymru, mae nifer y lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu 33% er 2017/18.

## 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[iii]

Mae’r gyllideb deunyddiau wedi gostwng yn 2019/20 ac nid yw’r targedau ar gyfer deunyddiau darllen cyfoes a phriodol wedi’u cyflawni, patrwm sydd i’w weld ledled Cymru. Mae’r gwasanaeth yn nodi bod y targed hwn yn parhau’n un na ellir ei gyflawni oherwydd maint y boblogaeth yng Nghaerdydd. Mae Caerdydd yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni’r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae’r gyllideb deunyddiau wedi gostwng bron i 5% er 2017/18, ond mae’r gwariant fesul pen o’r boblogaeth ychydig yn uwch na’r canolrif yng Nghymru. Mae’r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi llawer mewn adnoddau plant, ac mewn deunyddiau Cymraeg (DA 10), lle mae’r safon yn parhau i gael ei chyflawni. Mae’r ddarpariaeth gyfrifiaduron personol wedi aros yn sefydlog. Mae darpariaeth Caerdydd yn parhau ymhlith yr uchaf fesul pen o’r boblogaeth yng Nghymru. Mae’r targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau wedi parhau i gael ei gyflawni, a gwelwyd gwelliant bach yn nifer y ceisiadau sydd ar gael cyn pen 7 diwrnod calendr.

## 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)[iv]

Mae’r ddarpariaeth staffio gyffredinol wedi’i chadw ar lefelau 2018/19 a Chaerdydd yw’r unig wasanaeth yng Nghymru sydd wedi cyflawni’r targed ar gyfer cyfanswm y staff fesul pen o’r boblogaeth (DA 13), er bod Hybiau a llyfrgelloedd Caerdydd yn parhau i weithredu fel tîm integredig. Mae nifer y staff cymwysedig wedi’i gynnal, ac oherwydd hyn y ffigurau integreiddio ar gyfer staff cymwysedig yw’r rhai isaf ond un fesul pen o’r boblogaeth yng

Nghymru. Mae arweinyddiaeth gymwysedig wedi'i chynnal, ac mae Caerdydd yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddi a datblygu staff.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi codi unwaith eto yn 2019/20, ac wedi cynyddu 20% er 2017/18. Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi cynyddu ychydig, ac mae'r targed yma yn parhau i gael ei gyflawni, er bod nifer fach o achosion heb eu cynllunio o gau/methu arosfannau yn y gwasanaeth teithiol o ganlyniad i broblemau mecanyddol.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Yn ystod 2019 mae gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd wedi datblygu strategaeth leol sy'n seiliedig ar gyfeiriad strategol a Rhaglen Llywodraeth Cymru. Mae'r pwyslais parhaus ar iechyd a llesiant yn elfen allweddol o'r Strategaeth, sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gweledigaeth Caerdydd yn seiliedig ar 9 nod allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi plant a phobl ifanc, cynhwysiant digidol, allgáu cymdeithasol ac iechyd a llesiant.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, mae strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn nodi addewidion 'Byddwn' ar gyfer 9 nod allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu Hybiau, datblygu casgliadau, annog darllen, cefnogi plant a phobl ifanc, cynhwysiant digidol, mynd i'r afael â thlodi, hybu iechyd a llesiant, dod â chymunedau at ei gilydd a dathlu treftadaeth a diwylliant. Mae hon yn strategaeth uchelgeisiol sydd â'r potensial i ysbrydoli, darparu gwybodaeth a dod â phobl at ei gilydd ledled Caerdydd.

Mae Caerdydd hefyd yn adrodd ar ddatblygiad parhaus ei Hybiau Cymunedol, yn enwedig yr Hybiau sydd wedi'u hadnewyddu yn yr Eglwys Newydd a Rhydypennau.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Caerdydd wedi parhau i berfformio'n dda yn y flwyddyn olaf hon o'r chweched fframwaith. Bydd creu strategaeth llyfrgell newydd yn helpu'r gwasanaeth i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer "darparu gwasanaethau a chymorth o ansawdd uchel yng nghanol y gymuned". Ar y cyfan mae'n perfformio'n gryf ym mhob maes: mae gan y gwasanaeth y nifer uchaf o fenthycwyr gweithredol y pen ac mae niferoedd uchel o bobl yn defnyddio ei gyfleusterau TG. Fodd bynnag, mae nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan blant ac oedolion wedi gostwng yn sylweddol. Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant. Mae'r lefel isel o staff proffesiynol yn parhau i beri pryder. Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth yn darparu amrediad eang o weithgareddau a gwasanaethau i gefnogi ei gymunedau amrywiol.

---

[i] *Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.*

[ii] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.*

[iii] *Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.*

[iv] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.*